| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **4 Tachwedd 2024** |
| **Teitl :** | **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth ac i gyflwyno unrhyw sylwadau ar y trefniadau** |

**Cefndir**

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor fel rhan o'i waith o fonitro safonau o fewn y Cyngor ac yn unol â'i raglen waith.

2. Mae'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro o unrhwy gynnig o letygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na swm a bennir gan yr awdurdod. Penderfyniad Cyngor Gwynedd mai £25 ddylai'r swm hynny fod, a darparu ymhellach y dylid ei gofrestru pe derbynir y cynnig hwnnw ai peidio.

3. Mae ffurflen bwrpasol ar gael i gofrestru cynigion o'r fath ac mae copi wedi ei hatodi fel **Atodiad 1**.

**Y Protocol**

4. Mabwysiadodd y Cyngor Brotocol ar Roddion a Lletygarwch Aelodau yn 2004. Yn sgil cyhoeddi Cod Ymddygiad newydd a Chanllawiau gan yr Ombwdsmon adolygwyd y Protocol gan y Pwyllgor Safonau, gan gyflwyno ei argymhellion ar gyfer diwygio'r Protocol i'r Cyngor Llawn. Mabwysiadwyd y Protocol cyfredol gan y Cyngor ar 2 Mai 2013.

5. Atodir copi o'r Protocol fel **Atodiad 2**.

**Y Gofrestr**

6. Mae'r pwyllgor hwn yn y gorffennol wedi trafod priodoldeb cyhoeddi'r gofrestr ar y wefan y Cyngor. Penderfynywd bryd hynny na ddylid gwneud am y tro. Tra ei bod yn orfodol rhoi'r Gofrestr Fuddiannau Aelodau ar y wê ond nid yw'r un orfodaeth yn ymestyn i'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

**Dadansoddiad**

7.1 Dadansoddwyd y datganiadau ar y gofrestr gyfredol a cheir y canlyniadau isod:

| Dyddiad ffurflen | Rhodd/lletygarwch | Derbyniwyd / gwrthodwyd | Gwerth |
|---|---|---|---|
| 10-01-23 | Blodau a photel o prosecco gan etholwr ar ôl helpu gyda chais cynllunio. | Dim gwybodaeth | Dros £25 |
| 04-09-23 | Talebau rhodd fel diolch am roi cymorth gyda chais cynllunio. | Gwrthodwyd – rhoddwyd yn ôl i'r teulu | Dim gwybodaeth |
| 25-03-24 | Potel o wisgi drwy'r post heb nodyn eglurhad neu gyfeiriad. Credai'r aelod mai etholwr oedd wedi ei anfon fel diolch am gymorth gyda chais cynllunio. Roedd esioes wedi egluro wrtho na allai dderbyn rhodd. | Rhoddwyd i'r neuadd bentref leol fel gwobr raffl | £25- £27 |
| 23-08-24 | Hamper fel diolch am gynorthwyo gyda chais cynllunio | Gwrthodwyd – rhoddwyd yn ôl i'r etholwr | Dim gwybodaeth |

7.2 Mae'n parhau'n wir felly bod, ar sail yr hyn sy'n cael ei ddatgan, bod nifer y cynigion o roddion neu letygarwch a gofrestrir yn isel. Mae pob cynnig a gofrestrwyd hyd yma (ers Mai 2022) yn fynegiant o ddiolch am gymorth aelod lleol gyda chais cynllunio ar ôl y penderfyniad.

**Argymhelliad**

**8. Gofynnir i'r Pwyllgor:**

(a) nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad

(b) gynnig unrhyw sylwadau ar unrhwy fater a godir yn yr adroddiad